# Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

# Cofnodion

**Teitl y Cyfarfod:**

Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

**Lleoliad:** Cyfarfod dros Microsoft Teams

**Dyddiad y Cyfarfod:** 19 Ebrill 2021

**Yn bresennol:**

Zoe Henderson, CNC (Cadeirydd)

Dennis Matheson, TFA

Creighton Harvey, CFF

Bob Vaughan, CNC

Sarah Jones, Dŵr Cymru

Marc Williams, CNC

James Ruggeri, HCC

Edward Davies, CNC

Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru

Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL)

Spencer Conlon, LlC

Andrew Chambers, LlC

Nichola Salter, CNC

Shane Thomas, CFF

Jamie McCoy, AHDB

Geraint Hamer, LlC

Katy Simmons, CNC

Einir Williams, Cyswllt Ffermio

Fraser McAuley, CLA

Kate Snow, United Utilities

Ruth Johnston, CNC

Matthew Walters, LlC

**Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:**

Dim

**Ysgrifenyddiaeth:**

Bronwen Martin, CNC

**Ymddiheuriadau:**

Delyth Lewis-Jones, AHDB

Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru

## Eitem 1 Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datganiadau o Fuddiant

1. Croesawodd Zoe Henderson bawb i'r cyfarfod dros Microsoft Teams gan nodi'r ymddiheuriadau. Sylwer bod y cyfarfod yn cael ei recordio ar gyfer y cofnodion ac y bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu pan fydd cofnodion y cyfarfod wedi'u cwblhau.

2. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas â'r eitemau i'w hystyried ar yr Agenda.

   - DS: Mae pob aelod o'r grŵp eisoes wedi llenwi ffurflenni datganiad o fuddiant ond dylent hefyd ddatgan a oes ganddynt fuddiant mewn unrhyw beth ar yr agenda.

## Eitem 2 Adolygu'r Cofnodion a Datganiadau o Fuddiant

3. Cadarnhaodd y Cadeirydd y bydd cofnodion y cyfarfod yn cael eu hadolygu a'u cymeradwyo'n ffurfiol gan y grŵp ac yna'n cael eu cyhoeddi ar wefan CNC lle byddant ar gael i'r cyhoedd. Mae'n bwysig felly fod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfodydd.

4. Roedd y grŵp wedi adolygu cofnodion y cyfarfodydd blaenorol ar 5 Mawrth 2021 a 22 Mawrth 2021. Ni wnaeth y grŵp unrhyw sylwadau nac awgrymu gwelliannau.

5. Awgrymodd Ed Davies, CNC, y byddai unrhyw welliannau, newidiadau neu sylwadau y byddai'r aelodau am eu hanfon trwy'r e-bost, yn cael eu gweithredu.

6. Rhannodd Bronwen Martin, CNC, daenlen y Log Gweithredu er mwyn i'r grŵp adolygu'r camau gweithredu sydd heb eu cymryd ers y cyfarfodydd blaenorol. Nodwyd y sylwadaethau canlynol:

- PG 04 Mawrth: Bod pob aelod yn cyflwyno unrhyw gynigion ynghylch Ymreolaeth Haeddiannol i Lywodraeth Cymru.

- *Awgrymodd y Cadeirydd y dylai'r Is-grŵp ailedrych ar y pwnc trafod hwn ac efallai y gellid ei gynnwys ar agenda cyfarfod yn y dyfodol. Dywedodd Ed Davies, CNC, y byddai'n werth clywed rhai o'r cynigion y mae'r aelodau wedi'u cyflwyno.*

- PG 05 Mawrth: Bod Meinir Wigley, CNC, yn cysylltu â Chyswllt Ffermio ac unrhyw aelodau eraill o'r Is-grŵp i drafod y cynllun cyfathrebu ynghylch gweithredu'r rheoliadau.

- *Dywedodd Katy Simmonds, CNC, fod y cynllun cyfathrebu wedi cael ei rannu bellach a bod modd i CNC ei adolygu a gweld sut y gellir cydlynu popeth*.

- PG 03 (22 Mawrth): Bod Nichola Salter, CNC, yn anfon canllawiau mewnol CNC at aelodau'r grŵp, er gwybodaeth, wedi iddynt gael eu cymeradwyo'n fewnol.

- *Dywedodd Nichola Salter, CNC, y bydd modd iddi rannu'r canllawiau a'r eglurhad a ddatblygwyd yng nghyswllt gwahanol gyfnodau'r rheoliadau unwaith y cânt eu cymeradwyo'n fewnol. Mae'r wybodaeth hon yn uniongyrchol seiliedig ar y cyflwyniad a ddarparwyd gan Spencer, gyda rhai manylion technegol ychwanegol.*

- PG 05 (22 Mawrth): Bod Bob Vaughan, CNC, yn rhannu canllawiau â'r grŵp sy'n dweud bod systemau storio slyri newydd yn cael eu hystyried yn ddatblygiadau niwtral o ran ffosffad.

- *Dywedodd Bob Vaughan, CNC, fod y canllawiau'n cael eu harchwilio'n fewnol er mwyn sicrhau bod y protocol yn gywir.*

7. Awgrymodd Chris Mills, WEL, y dylai'r daenlen ymgorffori dyddiadau arfaethedig ar gyfer cwblhau camau gweithredu er mwyn helpu i'w holrhain.

## Eitem 3 Materion yn Codi

8. Cyfeiriodd y Cadeirydd at ei phryderon nad yw'r dull 'siop un stop' o ddarparu mynediad at wybodaeth ynghylch Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 wedi'i sefydlu hyd yn hyn. Gofynnodd a oedd y grŵp yn meddwl bod modd digon clir i ffermwyr gael hyd i'r wybodaeth gywir ac a geir mynediad clir iddi o wefan Llywodraeth Cymru neu wefan Cyswllt Ffermio.

   Dywedodd Sarah Hetherington, CNC, fod CNC wrthi'n gweithio ar adnoddau digidol ar gyfer amaethyddiaeth ar dudalennau gwe CNC a fydd yn cysylltu â gwahanol wefannau fel un Llywodraeth Cymru neu Gyswllt Ffermio. Fodd bynnag, bydd angen gwaith llywodraethu mewnol arnynt cyn eu cyhoeddi.

   Dywedodd Einir Williams, Cyswllt Ffermio, fod gan y Rhwydwaith Cymuned Ffermio (FCN), sef y Rhwydwaith Argyfwng Ffermio gynt, wefan 'siop un stop' ardderchog o'r enw FarmWell Cymru, sy'n cyfeirio ffermwyr at wahanol ffynonellau cyngor a chefnogaeth. Mae'r wefan hefyd yn darparu cymorth emosiynol i ffermwyr, cymorth â rheoliadau, cyllid grantiau a chymorth trwy Gyswllt Cymru.

9. Gofynnodd y Cadeirydd i Spencer a oes modd ystyried defnyddio dull rheoli fersiynau ar gyfer dogfennau Cwestiynau Cyffredin Llywodraeth Cymru yng nghyswllt Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021. Awgrymodd y Cadeirydd y gellid cynnwys dyddiad creu ar gyfer pan fydd pobl yn ei hargraffu. Roedd Spencer Conlon, Llywodraeth Cymru, yn cytuno y gellid ychwanegu dyddiad at y ddogfen.

10. Dywedodd Dennis Matheson, TFA, ei fod wedi darllen trwy nodiadau'r canllawiau a'r ddogfen Cwestiynau Cyffredin. Roedd Dennis yn cofio Spencer yn dweud y byddai gwybodaeth am ffermwyr sy'n denantiaid yn cael ei hychwanegu at y ddogfen Cwestiynau Cyffredin ond ar hyn o bryd, yr unig dro y sonnir am ffermwyr sy'n denantiaid yw'r sylw sy'n ddweud bod rhaid iddynt gydymffurfio yn yr un modd â phob ffermwr arall. Gofynnodd Dennis i Spencer egluro a fyddai gwybodaeth benodol ar gael i ffermwyr sy'n denantiaid. Cadarnhaodd Spencer Conlon, Llywodraeth Cymru, y byddai gwybodaeth ar gael i ffermwyr sy'n denantiaid yn y Cwestiynau Cyffredin, ond esboniodd fod yr wybodaeth honno ar ffurf ddrafft ar hyn o bryd gan fod y pwyntiau'n cael eu gwirio gan y gwasanaethau cyfreithiol. Dywedodd Spencer y gallai'r diweddariad hwn i'r Cwestiynau Cyffredin gael ei rannu wedyn ag aelodau'r Is-grŵp cyn gynted ag y byddai ar gael.

***PG 01 Ebrill: Bod Spencer Conlon, Llywodraeth Cymru yn rhannu'r diweddariad i'r ddogfen Cwestiynau Cyffredin ynghylch ffermwyr sy'n denantiaid.***

Gofynnodd y Cadeirydd pryd y gallai hwnnw fod ar gael. Dywedodd Spencer y byddai'n ceisio'i ddarparu cyn cyfarfod nesaf yr Is-grŵp.

11. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd y sefydliadau sy'n rhan o'r grŵp wedi cael unrhyw adborth gan eu haelodau ynghylch y rheoliadau.

12. Dywedodd Creighton Harvey, CFF, fod tipyn go lew o ddifaterwch ymhlith pysgotwyr, ond yr oedd rhai wedi bod yn ymboeni mwy am fynd allan i bysgota ar 1 Ebrill. Mae eraill yn bryderus iawn am y rheoliadau ac mae'n destun siom nad yw safbwynt CNC yn hysbys o hyd. Dywedodd Creighton fod cyfnod rhwystredig o'i flaen oherwydd fel arfer, ar yr adeg hon o'r flwyddyn, byddai ganddo un neu ddau o ddigwyddiadau i roi gwybod amdanynt ac mae'n rhag-weld y bydd yn cael rhai sgyrsiau diddorol dros y ffôn. Atebodd Nichola Salter, CNC, a dywedodd fod canllawiau interim wedi cael eu hanfon at staff CNC y noson cyn 1 Ebrill 2021. Anfonwyd yr wybodaeth at yr holl staff rheoli digwyddiadau a phawb sy'n rhan o rota System Cofnodi Digwyddiadau Cymru (WIRS), i esbonio sut i ddelio â digwyddiadau. Mae staff CNC wedi cael canllawiau a'r hyn sy'n cael ei ddatblygu yw'r canllawiau ar gyfer y rheoliadau wrth iddynt gael eu cyflwyno fesul cam. Esboniodd Nichola petai Creighton yn ffonio CNC i roi gwybod am ddigwyddiad, dylai fod staff CNC yn gwybod beth i'w wneud. Diolchodd Creighton i Nichola am y diweddariad a dywedodd mai hwn oedd y tro cyntaf iddo gael eglurhad pendant ar y mater. Awgrymodd Creighton fod problem gyfathrebu oherwydd petai'n gwybod beth oedd y sefyllfa, gallai fod wedi dosbarthu gwybodaeth, yn enwedig i bobl yn Sir Gaerfyrddin, i ddweud wrthynt fod staff CNC wedi cael canllawiau. Dywedodd Creighton y byddai'n ddefnyddiol pe gellid cyhoeddi'r canllawiau hynny fel bod pobl yn gwybod sut i lwybro wrth roi gwybod am ddigwyddiadau. Dywedodd Nichola y byddai'n rhaid iddi wirio a oedd yr wybodaeth fewnol yn addas i'w dosbarthu'n allanol am fod rhannau helaeth ohoni'n cynnwys cysylltiadau mewnol i'r canllawiau.

***PG 02 Ebrill: Bod Nicola Salter a Bob Vaughan, CNC, yn cyfarfod i drafod y canllawiau mewnol a roddwyd i staff CNC a rhannu'r wybodaeth yr oedd modd ei rhannu â'r grŵp***.

Dywedodd Creighton fod CFF yn ceisio helpu CNC cymaint â phosibl a soniodd am ddigwyddiad lle roedd llaeth wedi llygru Afon Dulais. Cysylltodd CNC â CFF i ofyn i'r Ffederasiwn gysylltu â holl aelod-glybiau'r sefydliad er mwyn sicrhau bod pawb yn gwybod bod CNC wedi ymweld â'r digwyddiad a rhoi rhybudd iddynt ynghylch trafferthion posibl ar yr afon yn sgil achos posibl o awdurdodi rhyddhau dŵr o Lyn Brianne. Roedd CFF yn ddiolchgar am yr wybodaeth hon a byddai'n croesawu rhagor o ddiweddariadau ynghylch yr hyn sy'n digwydd a byddai'n fodlon rhannu gwybodaeth â'r sefydliadau sy'n aelodau o'r ffederasiwn a physgotwyr yn Sir Gaerfyrddin. Dywedodd Creighton fod CFF yn ceisio helpu ond yr oedd angen iddo gael yr wybodaeth er mwyn gallu ei rhannu. Dywedodd Bob Vaughan, CNC, y bu'n gyfnod prysur ond byddai CNC yn ceisio dosbarthu peth gwybodaeth oherwydd y mae'n gwerthfawrogi'r cymorth.

13. Awgrymodd Chris Mills, WEL, nad pysgotwyr Sir Gaerfyrddin yw'r unig rai y mae arnynt angen gwybodaeth am ymateb CNC i'r rheoliadau a bod ei hangen ar bobl ledled Cymru, felly mae angen cael hyd i fecanwaith i roi diweddariadau i bawb. Efallai bod CNC a Llywodraeth Cymru yn brysur iawn yn delio â'r mater hwn, ond cyfathrebu yw un o'r agweddau pwysicaf. Nid yw'n ddigon da dweud bod hwn yn gyfnod dychrynllyd o brysur ac felly nid yw pobl wedi cael cyfle i gyfathrebu eto. Nododd Chris fod cyfathrebu'n allweddol bwysig o ran rheoli'r sefyllfa boed gyda'r gymuned ffermio neu gyda chymunedau eraill yr effeithir arnynt.

    Dywedodd Spencer Conlon, Llywodraeth Cymru, y dylai pob aelod o'r Is-grŵp, yn ogystal â Llywodraeth Cymru a CNC, fod yn rhannu'r negeseuon allweddol er mwyn ceisio lleddfu rhywfaint ar y panig. Dylai pawb yn y grŵp fod yn ymwybodol o'r mesurau a phryd y maent yn dod i rym.

    Roedd Chris Mills, WEL, yn cytuno y dylai pob aelod fod yn rhannu'r ffeithiau ond dywedodd na allai'r aelodau gyfathrebu'n fwy helaeth heb wybod beth yw ymateb CNC.

14. Cyfeiriodd Jamie McCoy, AHDB, at weminar yr oedd AHDB wedi'i gynnig yn ddiweddar i Ffermwyr Godro yng Nghymru a gyflwynwyd gan Keith Owen a Chris Duller. Roedd y cyflwyniad yn cwmpasu esgyrn sychion y rheoliadau ac yn tynnu sylw at y pethau y gall fod angen i bobl ddechrau meddwl amdanynt yn y misoedd nesaf. Dywedodd fod y mathau o gwestiynau a gafwyd yn ystod y sesiwn weminar yn eithaf dadlennol ac yn awgrymu nad yw rhai ffermwyr o reidrwydd wedi deall eto beth sy'n berthnasol a'r hyn sydd ar ddod. Mae yna lefel o banig ac anghrediniaeth ymysg ffermwyr ynghylch yr hyn sy'n digwydd. Roedd Jamie yn cydnabod efallai nad dyma'r neges yr oedd yr Is-grŵp am ei chlywed ond dyma realiti sefyllfa bresennol ffermwyr, yn enwedig gyda thudalen flaen y Farmers Guardian yn cyfeirio at gamau cyfreithiol sy'n cael eu cymryd a'r rhaglen deledu yn ddiweddar ynghylch y cwmnïau dŵr. Awgrymodd Jamie fod gwaith enfawr i'w wneud o hyd i gyfleu'r hyn y mae'r rheoliadau'n ei olygu'n barod a beth y byddant yn ei olygu yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod oherwydd, ar hyn o bryd, nid yw rhai ffermwyr yn bod mor realistig am hyn i gyd.

    Esboniodd Jamie fod gweminar Ffermio Gwartheg Godro AHDB wedi targedu ffermwyr Godro Cymru a bod modd gweld recordiad o'r digwyddiad ar YouTube (AHDB Dairy Webinar - New Water Resources Regulation in Wales). Bu oddeutu 100 o bobl yn

gwrando'n fyw ar y weminar ac mae AHDB yn paratoi tudalen Cwestiynau Cyffredin yn seiliedig ar y cwestiynau a gyflwynwyd gan ffermwyr ar y pryd, a gaiff ei chyhoeddi ar wefan Ffermwyr Godro AHDB.

15. Dywedodd Dennis Matheson, TFA, fod y rhan fwyaf o'r rheoliadau newydd wedi'u cwmpasu mewn trawsgydymffurfio a'u disgrifio gan Daliadau Gwledig Cymru (RPW) yn y rheolau eleni. Dywedodd Dennis nad oedd ffermwyr yn gwybod beth y dylent ei wneud mewn gwirionedd, er bod y wasg ffermio wedi rhoi sylw i'r mater. O safbwynt tenantiaid, dywedodd Dennis fod rhai landlordiaid yn anwybyddu'r rheoliadau, felly mae'n rhaid sicrhau bod rhyw ganllawiau ar gael i ffermwyr sy'n denantiaid. Mae'n destun pryder bod y rheoliadau wedi dechrau dod i rym ar 1 Ebrill 2021 ac nad ydym yn gwybod o hyd beth y mae ffermwyr sy'n denantiaid i fod i'w wneud. Awgrymodd Dennis mai'r unig ffordd i gyflawni hyn, o bosibl, yw bod pob ffermwr yng Nghymru sy'n cadw da byw yn cael ymweliad o dan y Prosiect Ffermio Gwartheg Godro ac yn cael cynllun wedi'i lunio, fel bod pawb yn gwybod beth i'w wneud.

16. Dywedodd Bernard Griffiths, FUW, nad yw pobl ond yn dechrau sylweddoli graddfa'r newid sydd ar ddod wrth i nifer y ffermwyr yr effeithir arnynt gynyddu o 2.7% i 100%. Awgrymodd Bernard na ddylai pobl synnu at lefel y difaterwch a'r diffyg gwybodaeth am y rheoliadau. O wrando ar sgyrsiau'r Is-grŵp yn y cyfarfod hwn, mae'n amlwg bod sefydliadau'n cael trafferth gyda negeseuon a chyfathrebu oherwydd graddau'r newid. Dywedodd Bernard fod rhai o aelodau'r Undeb yn anwybyddu'r sefyllfa, mae rhai yn anobeithio'n llwyr ac mae rhai yn gadael y sector godro yn gyfan gwbl. Dywedodd Bernard fod y sefyllfa'n wael mewn gwirionedd ac yr oedd ffermwyr nid yn unig yn pryderu, ond yn poeni'n arw iawn.

17. Cyfeiriodd y Cadeirydd at ddogfen gyfathrebu ddrafft Llywodraeth Cymru a ddosbarthwyd i aelodau'r Is-grŵp ychydig cyn y cyfarfod y bore hwnnw a gofynnodd i Andrew Chambers a Spencer Conlon beth yr oeddent yn gobeithio'i gael heddiw. Dywedodd Spencer nad oeddent yn disgwyl trafod y ddogfen yn y cyfarfod hwn ond maent yn fodlon derbyn unrhyw sylwadau. Awgrymodd Spencer y gallai'r aelodau ystyried y ddogfen wrth eu pwysau a chyflwyno sylwadau ynghylch y cynnwys, unrhyw faterion sydd heb eu cynnwys, ac awgrymu newidiadau. Dywedodd Spencer fod hon yn ddogfen fyw a gaiff ei haddasu a'i newid wrth i amser fynd heibio. Mae'r ddogfen hefyd yn darparu peth gwybodaeth am ganllawiau ar gyfer sectorau penodol, er enghraifft y sectorau defaid, gwartheg godro ac ati ac yn cynnwys cymysgedd o elfennau sydd wedi'u cyflawni, elfennau a fydd yn cael eu cyflawni ac elfennau sydd o dan ystyriaeth.

***PG 03 Ebrill: Bod aelodau'r Is-grŵp yn archwilio dogfen gyfathrebu ddrafft Llywodraeth Cymru ac yn anfon unrhyw sylwadau ac awgrymiadau at Spencer Conlon, Llywodraeth Cymru.***

Nododd Spencer fod pwynt gweithredu o'r cyfarfod diwethaf i Lywodraeth Cymru edrych ar Becyn Rhanddeiliaid. Dywedodd Spencer y byddai'n ddefnyddiol deall pa wybodaeth y byddai'n werth ei chynnwys yn y Pecyn Rhanddeiliaid. Gofynnodd Spencer i'r grŵp helpu i bennu pa wybodaeth y mae'i hangen er mwyn i Lywodraeth Cymru allu cynhyrchu adnodd buddiol at ddefnydd y diwydiant. Awgrymodd Spencer fod hon yn ddogfen gan Lywodraeth Cymru gyda chymorth Cyswllt Ffermio ond, gydag amser, dylai holl aelodau'r Is-grŵp helpu i rannu negeseuon.

***PG 04 Ebrill: Bod aelodau’r Is-grŵp yn cyflwyno awgrymiadau ynghylch cynnwys y Pecyn Rhanddeiliaid i’w hystyried a’u crynhoi gan Lywodraeth Cymru.***

18. Gofynnodd Fraser McAuley, CLA, i Dennis pa agwedd benodol ar y rheoliadau a ddaeth i rym ar 1 Ebrill sy’n achosi problem i ffermwyr sy’n denantiaid yn fwy na ffermwyr eraill. Dywedodd fod gan y Gymdeithas aelodau sy’n denantiaid a’i bod hi’n barod i helpu neu gydgysylltu â TFA. Dywedodd Dennis nad oes angen i denantiaid wneud fawr ddim ar hyn o bryd. Fodd bynnag, os bydd gofyn cael system storio slyri newydd, fel sy’n debygol o ddigwydd i’r rhan fwyaf o denantiaid, bydd angen iddynt ddechrau trafod hynny gyda’u landlordiaid yn awr i gael gwybod beth yw’r sefyllfa, neu fel arall, nid ydynt yn debygol o gael eu system storio slyri newydd erbyn Awst 2024, am ei bod hi’n broses hirfaith. Cyfeiriodd Dennis at bryder arall, sef fod tenantiaethau busnes fferm, sy’n cwmpasu hanner y tenantiaethau yng Nghymru, yn rhai cyfnod byr, sef 3.2 blynedd ar gyfartaledd. Yn yr achos hwn, mae’n amheus ganddo a fydd unrhyw landlord neu denant yn gwario £50,000 ar storfa slyri newydd. I gloi, dywedodd Dennis y bydd rhaid i denantiaid ddechrau meddwl am hyn yn awr er nad yw’r agwedd hon ar y rheoliadau wedi dod i rym eto.

19. Dywedodd Einir Williams, Cyswllt Ffermio, y bydd hi’n rhoi sylw yn ddiweddarach yn y cyfarfod i’r rhannau o’r Cynllun Cyfathrebu y mae Cyswllt Ffermio eisoes yn gweithio arnynt a’r rhannau sydd eisoes wedi cael eu cymeradwyo i’w cyflwyno.

## Eitem 4 Datganiad Gorlif Carthffosydd

20. Esboniodd y Cadeirydd fod yr eitem hon wedi cael ei hychwanegu at yr agenda yn sgil rhaglen ddogfen *Panorama* y BBC a ddarlledwyd ar 12 Ebrill 2021. Mae’r grŵp yn ymwybodol iawn fod sawl maes arall yn llygru ein dyfroedd ac mae CNC, Llywodraeth Cymru a sawl un arall yn gweithio ar y materion hynny. Mae gorlif carthffosydd yn bwnc trafod amserol; fodd bynnag, ni ddylai dynnu sylw oddi wrth waith yr Is-grŵp ar lygredd amaethyddol. Dywedodd Zoe fod CNC wedi llunio nodyn briffio a gaiff ei ddosbarthu i aelodau’r Is-grŵp yn dilyn y cyfarfod.

21. Esboniodd Bob Vaughan, CNC, fod carthffosiaeth drefol, sy’n cynnwys dŵr budr o gartrefi a dŵr glaw yn y rhan fwyaf o achosion, yn mynd i mewn i garthffos gyfun. Mewn cyfnodau o dywydd gwael, mae’r carthffosydd yn gorlenwi â dŵr glaw (mae dŵr glân yn mynd i mewn i system dŵr budr), sy’n gallu achosi problemau. Petai’r pwysau ar y system yn cynyddu mewn modd dramatig, gallai hynny achosi i’r dŵr ôl-gronni mewn tai a chartrefi ar lefel is oni bai bod darpariaeth fel Systemau Gorlif Carthffosydd Cyfun (CSOs) yn y system i ryddhau’r pwysau. I bob pwrpas, mae’r dŵr yn cronni yn y pibellau ac yn llenwi’r siambrau a leolir mewn mannau penodol, ac yn gorlifo, yn y pen draw, os bydd y dŵr yn y bibell yn codi uwchlaw’r lefel a bennwyd. Mae’r system wedi’i dylunio i wneud hyn, ac mae dŵr llygredig wedi’i wanedu yn cael ei ollwng wedyn i gyrsiau dŵr arwyneb sydd hefyd â lefelau dŵr uchel o ganlyniad i’r dŵr glaw. Esboniodd Bob fod y system hon ar waith ers degawdau ond wrth i stormydd ddigwydd yn amlach ac wrth i’r hinsawdd newid, mae’n bosib bod y system yn gorlifo’n amlach nag o’r blaen. Buddsoddwyd symiau aruthrol yn ystod y 40 neu 50 mlynedd ddiwethaf i geisio rheoli CSOs. Yn y gorffennol, roedd lleoliadau’r CSOs yn anhysbys gan iddynt gael eu hadeiladu dros gyfnod mor hir. Fodd bynnag bydd y mwyafrif helaeth wedi cael caniatâd i arllwys nifer penodedig o weithiau mewn blwyddyn a dim ond pan fydd hi’n bwrw glaw. Dywedodd Bob os yw CSOs yn rhyddhau dŵr ar adegau eraill, fod hynny’n awgrymu bod problem yn y system.

Dywedodd Bob fod rhaglen *Panorama* wedi nodi mannau lle roedd methiannau yn y system. Bu CNC yn gweithio'n agos gyda Dŵr Cymru a chwmnïau dŵr eraill yng Nghymru, megis United Utilities yn y Gogledd-ddwyrain a Severn Trent. Bu'r sefydliadau'n buddsoddi yn y CSOs hyn i sicrhau: eu bod yn gwybod eu lleoliad, yn gwybod a ydynt yn gweithio'n gywir, yn gwybod pa mor aml y maent yn gorlifo ac nad ydynt yn achosi gormod o broblemau. Cydnabu Bob fod rhaglen *Panorama* wedi amlygu bod angen buddsoddi ymhellach ac mae CNC a'r cwmnïau dŵr yn gweithio'n galed i geisio mynd i'r afael â'r her hon. Yn achos rhai o'r CSOs, mae'n fater o waith cynnal a chadw a bydd angen i ni fynd allan a rhoi trefn arnynt. Materion hunangofnodedig yw'r rhan fwyaf o'r materion CSO a nodwyd felly yn hytrach na bod CNC yn mynd allan i chwilio amdanynt, mae'r cwmnïau dŵr wedi cysylltu i ddweud bod problemau mewn rhai mannau ac yna mae CNC yn eu monitro.

Rhoddodd Bob drosolwg o graff a ddangosai'r digwyddiadau llygredd profedig a effeithiodd ar ddŵr arwyneb fesul sector rhwng 2018 a 2021. Dangosai'r graff mai amaethyddiaeth a'r diwydiannau dŵr oedd â'r nifer mwyaf o ddigwyddiadau llygredd profedig. Dywedodd Bob fod CNC yn gwneud yr un faint o ymdrech i geisio lleihau digwyddiadau ym mhob un o'r diwydiannau a gynrychiolwyd ar y graff.

Mae nodyn briffio CNC yn rhoi cefndir y system CSO. Dywedodd Bob y bu CNC hefyd yn gweithio gyda Dŵr Cymru ar brosiectau i geisio tynnu dŵr glaw allan o'r system, sy'n cynyddu capasiti'r garthffos.

22. Nododd Ruth Johnston, CNC, mai gwaith partneriaeth yw'r unig ffordd o gyflawni gwaith sy'n rhoi sylw i'r angen am gadw dŵr arwyneb allan o garthffosydd. Peidio â chael dŵr arwyneb mewn carthffosydd budr fyddai'r canlyniad gorau i bawb, gan gynnwys y cwmnïau dŵr, oherwydd mae hynny'n golygu bod llai o amrywiadau yn y llifoedd sy'n cael eu trin, felly mae perfformiad y systemau trin yn fwy dibynadwy.

23. Awgrymodd Chris Mills, WEL, y gallai'r graff fod braidd yn gamarweiniol oherwydd mae digwyddiadau yn un peth ond mae eu heffaith ar yr amgylchedd yn beth arall. Dywedodd Chris iddo gysylltu â CNC dro yn ôl i holi beth yw effaith amgylcheddol CSOs. Esboniodd Chris mai'r ffordd orau o edrych ar effaith amgylcheddol CSOs yw edrych ar achosion o fethiannau o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) ac y dylid edrych ar y rhain ochr yn ochr â'r graff digwyddiadau. Nododd Chris nad oedd effaith lawn CSOs ar yr amgylchedd yn glir eto. Mae gwanedu sylweddol yn digwydd felly, o dan amgylchiadau arferol, os ydynt yn gollwng dŵr fel y caniateir iddynt wneud, yna bydd yr effaith gyffredinol ar yr amgylchedd yn gymharol isel. Dywedodd Chris na ddylid cymysgu rhwng hynny ac estheteg, oherwydd roedd y rhaglen ddogfen yn dangos lluniau o bysgod yn nofio ynghanol cynhyrchion mislif annymunol.

    Dywedodd Chris fod yn rhaid i CNC ddelio â'r ffaith fod hon yn broses a ganiateir ac mae tystiolaeth glir sy'n awgrymu nad yw Dŵr Cymru bob amser yn cydymffurfio â'i hawlenni CSO o ran gollyngiadau o waith trin carthion. Awgrymodd Chris y byddai CNC yn cael ei herio i ateb cwestiynau ynghylch y graddau y mae'n ymwybodol o'r sefyllfa hon ac, os yw'n ymwybodol ohoni, mae'n bwysig ei fod yn onest ac yn disgrifio'r camau a gymerwyd. Ni ellir datrys y problemau hyn dros nos ac mae gofyn dilyn proses hir o sicrhau buddsoddiadau ar gyfer gwaith trin carthion. Dywedodd Chris fod pobl o dan yr argraff nad oes gan CNC reolaeth ar ei broses reoleiddio'i hun, ond roedd yn cydnabod na chafodd CNC wahoddiad i gymryd rhan yn y rhaglen ddogfen.

Cadarnhaodd Bob Vaughan, CNC, na fu CNC yn ymwneud â’r rhaglen ddogfen ond byddai’r corff yn darparu ymateb i’r rhaglen.

Dywedodd Chris fod y buddsoddiad sylweddol sy’n angenrheidiol yn dod gan bawb sy’n talu ffioedd dŵr ond nid oedd y rhaglen ddogfen wedi sôn am hynny. Dyna wir natur y sefyllfa a gallai’r gwaith gostio biliynau o bunnau.

24. Dywedodd Sarah Jones, Dŵr Cymru, y byddai’n rhannu dolenni er mwyn i’r grŵp gael mynediad at wybodaeth ychwanegol am CSOs, sy’n cynnig rhagor o gyd-destun o safbwynt Dŵr Cymru:

- Datganiad CSO Dŵr Cymru – 12 Ebrill 2021:

  https://corporate.dwrcymru.com/en/news-media/2021/combined-storm-overflow-statement

- Rhagor o wybodaeth am CSOs gan Ddŵr Cymru:

  https://www.dwrcymru.com/en/our-services/wastewater/combined-storm-overflows

Dywedodd Sarah fod Dŵr Cymru yn ymwybodol o effeithiau posibl ei weithrediadau ar yr amgylchedd a bod ei berfformiad amgylcheddol yn fater difrifol iawn i’r cwmni. O safbwynt rheoleiddio, dywedodd Sarah fod Tîm Gwastraff Dŵr Cymru a CNC yn gwneud gwaith traws-sefydliadol aruthrol.

Esboniodd Sarah fod rhwydwaith dŵr gwastraff Dŵr Cymru yn cynnwys mwy na 380 o asedau dŵr gwastraff ledled Cymru a mwy na 370,000 cilometr o garthffosydd sy’n cwmpasu’r holl gymunedau a wasanaethir. Mae’r rhwydwaith carthffosydd cyfun hen yn golygu bod hon yn dasg gymhleth ac aruthrol. Mae’r tywydd yn ffactor enfawr hefyd a gwelwyd patrymau tywydd eithafol dros y 12 mis diwethaf yn sicr. Gwelwyd mai 2020 oedd y drydedd flwyddyn wlypaf ers dechrau cadw cofnodion gyda naw o stormydd wedi’u henwi yn ystod y flwyddyn honno. Esboniodd Sarah nad yw’r systemau wedi’u dylunio i ddelio â digwyddiadau tywydd nerthol o’r math hwn ac felly mae’n anorfod bron y bydd rhai CSOs wedi cael eu defnyddio’n amlach. Mae Dŵr Cymru bob amser yn buddsoddi i geisio ymateb i’r heriau hyn sy’n gysylltiedig â’r newid yn yr hinsawdd. Mae CSOs yn cael eu defnyddio ac wedi’u dylunio i gael eu caniatáu ac, yn sgil newidiadau mewn deddfwriaeth amgylcheddol ac yn nisgwyliadau cwsmeriaid, mae Dŵr Cymru yn cydnabod bod angen gwneud rhagor ac mae’r cwmni’n barod i ymateb i’r her. Fodd bynnag, bydd angen arian ychwanegol sylweddol a bydd hi’n cymryd amser hir i gyflawni’r gwaith, er enghraifft, byddai ôl-osod y rhwydwaith cyfan i gael gwared ar y CSOs yn waith hirdymor aruthrol a allai gostio £9-14 biliwn. Dywedodd Sarah fod Dŵr Cymru eisoes yn buddsoddi’n helaeth ac mae’r cwmni wedi buddsoddi £1.8 miliwn, er 2015, i wella gwaith monitro’r CSOs. Mae Dŵr Cymru wedi ychwanegu miloedd o fonitorau ychwanegol er 2017 a gosodwyd cyfarpar monitro gollyngiadau mewn mwy na 90% o’r CSOs, sy’n rhagori o dipyn ar berfformiad cyfartalog y diwydiant. Mae Dŵr Cymru yn cydnabod bod mwy o feysydd a mwy o welliannau i’w gwneud ac y mae’n gweithio ar y rhain.

25. Cyfeiriodd Bernard Griffiths, FUW, at neges e-bost yr oedd wedi'i hanfon, cyn y cyfarfod, yn gofyn am ymateb gan y cwmnïau dŵr i ddarparu cyd-destun o ran y CSOs, a dywedodd fod Sarah wedi gwneud hynny yn ei thrafodaeth. Dywedodd Bernard fod y problemau yn y sector amaethyddol yn debyg i'r rhai yn y diwydiant cyfleustodau, sef na ellir datrys y problemau ond trwy fuddsoddi dros gyfnod hir o amser. Er enghraifft, buddsoddi mewn rhagor o systemau storio slyri ar ffermydd a buddsoddi i ddatblygu'r rhwydwaith CSO.

    Dywedodd Bernard fod dull gweithredu aml-sector ar waith ar hyn o bryd o ran y ffordd y mae'r cwmnïau cyfleustodau yn gweithio gyda'r sector amaethyddol i gael gwared ar slwtsh carthion. Fodd bynnag, mae'r rheoliadau Parthau Perygl Nitradau yn dod i rym bellach a bydd ffermwyr yn gorfod cydymffurfio â therfynau nitrogen, felly beth mae'r cyfleustodau'n bwriadu'i wneud pan fydd hi'n anoddach iddynt ryddhau slwtsh carthion nag y mae ar hyn o bryd.

    Dywedodd Sarah Jones, Dŵr Cymru, fod gan y cwmni Dîm Biosolidau a byddai'n annog unrhyw ffermwyr sy'n pryderu am y mater hwn i siarad â'u gweithwyr cyswllt yn y tîm hwnnw. Mae llawer iawn o reoliadau yn y maes hwn felly bydd gan bob ffermwr sy'n rhan o fanc tir weithiwr cyswllt i siarad ag ef. Awgrymodd Sarah y gallai wahodd aelod o'r tîm Biosolidau i gyfarfod yn y dyfodol i roi cyflwyniad ynghylch biosolidau a gwaith Dŵr Cymru yn y maes hwn.

***PG 05 Ebrill: Bod Sarah Jones, Dŵr Cymru, yn gwahodd aelod o'r tîm Biosolidau i roi cyflwyniad mewn cyfarfod yn y dyfodol.***

    Dywedodd Bernard yr hoffai gael gwybod pa broblemau posibl y bydd y rheoliadau newydd yn eu hachosi i'r cwmnïau dŵr, os na fydd modd iddynt gael gwared ar solidau yn eu dull arferol. Esboniodd Bernard fod modd i 97% o ffermydd dderbyn peth slwtsh carthion ar hyn o bryd ond, yn y dyfodol, bydd y terfyn nitrogen o 170kg/ha yn berthnasol ac felly bydd yn rhaid i ffermwyr flaenoriaethu eu tail eu hunain ar y fferm. Gofynnodd Bernard a fydd hyn yn broblem i'r cwmnïau cyfleustodau, gan fod FUW yn teimlo bod hwn yn fater amlsector.

    Dywedodd Bernard fod y graff sy'n dangos y digwyddiadau llygredd wedi'u profi yn awgrymu bod nifer y digwyddiadau yn y sector amaethyddol wedi bod yn lleihau yn y cyfnod 2018-2021 o gymharu â digwyddiadau yn y diwydiannau dŵr, ond eto mae'r sector amaethyddol yn gorfod ysgwyddo rheoliadau newydd enfawr sy'n effeithio ar bob ffermwr yng Nghymru.

26. Gofynnodd Elizabeth Franks, Hafren Dyfrdwy, a oedd cais Bernard yn ymholiad penodol ar gyfer Dŵr Cymru ynteu a oedd am gael darlun Cymru gyfan. Cynigiodd Elizabeth lunio ymateb a chasglu gwybodaeth ynghyd gan Hafren Dyfrdwy gan fod y cwmni hwn yn cwmpasu canran fawr o ardal Powys. Cadarnhaodd Bernard iddo anfon y cais at Ysgrifennydd yr Is-grŵp i'w gynnwys ar agenda'r cyfarfod er mwyn i'r holl gyfleustodau dŵr ac aelodau eraill y grŵp roi sylwadau arno.

***PG 06 Ebrill: Bod Bronwen Martin, CNC, yn rhannu cais e-bost Bernard Griffiths, FUW, ag Elizabeth Franks, Hafren Dyfrdwy.***

***PG 07 Ebrill: Bod Elizabeth Franks, Hafren Dyfrdwy yn bwrw golwg dros gais e-bost Bernard Griffiths, FUW, ac yn darparu unrhyw fanylion ychwanegol.***

***PG 08 Ebrill: Bod Sarah Jones, Dŵr Cymru, yn anfon dolenni i'r wefan a'r wybodaeth ychwanegol am y CSOs at Bronwen Martin, CNC, er mwyn iddi hithau eu dosbarthu i'r grŵp a'u cynnwys yng nghofnodion y cyfarfod.***

27. Cadarnhaodd Kate Snow, United Utilities, nad oes gan United Utilities asedau carthffosydd yng Nghymru.

28. Diolchodd y Cadeirydd i'r grŵp am y drafodaeth werthfawr a diddorol ynghylch CSOs.

## Eitem 5 Cylch Gorchwyl a Dewisiadau E-bost

29. Nododd y Cadeirydd fod gofyn diweddaru Cylch Gorchwyl Is-grŵp WLMF ac awgrymodd y gellid eu hadolygu a'u diweddaru erbyn y cyfarfod nesaf. Gofynnwyd i'r grŵp am unrhyw adborth a sylwadau.

30. Dywedodd y Cadeirydd fod angen i nifer o 'Amcanion' yr Is-grŵp gael eu hadolygu.

31. Nododd Elizabeth Franks, Hafren Dyfrdwy, fod y Cylch Gorchwyl presennol yn cyfeirio at y Paneli Cydgysylltu Basnau Afonydd, nad ydynt yn bod bellach.

32. Roedd Dennis Matheson, TFA, yn cofio bod y rhestr aelodau a amlinellwyd yn y Cylch Gorchwyl wedi dyddio. Roedd y Cadeirydd yn cytuno bod aelodaeth yr Is-grŵp wedi newid ers yr adolygiad diwethaf a byddai hynny'n cael ei adlewyrchu yn y diweddariad.

33. Awgrymodd Marc Williams, CNC, y gellid ail-ddrafftio'r Cylch Gorchwyl ac yna'i ddosbarthu er mwyn i'r aelodau gael ei adolygu cyn y cyfarfod nesaf.

***PG 09 Ebrill: Bod CNC yn ailddrafftio'r Cylch Gorchwyl a'i ddosbarthu er mwyn i'r aelodau gael ei adolygu cyn cyfarfod nesaf yr Is-grŵp.***

34. Esboniodd Marc Williams, CNC, fod aelodaeth yr Is-grŵp wedi newid ers cyflwyno'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) o dan Ddeddf Diogelu Data 2018, felly gofynnwyd i'r grŵp gadarnhau a ydynt yn fodlon rhannu cyfeiriadau e-bost ag aelodau eraill yr Is-grŵp neu a fyddai'n well ganddynt weld dull copi dall yn cael ei ddefnyddio ar gyfer negeseuon y grŵp o hyn ymlaen.

35. Nid oedd neb yn gwrthwynebu rhannu cyfeiriadau e-bost oddi mewn i'r grŵp.

## Eitem 6 Diweddariad gan Gyswllt Ffermio

36. Trosglwyddodd y Cadeirydd yr awenau i Einir Williams, Cyswllt Ffermio, a roddodd ddiweddariad ar y cynllun cyfathrebu tymor hwy ynghylch Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.

37. Rhannodd Einir gyflwyniad â'r grŵp a oedd yn amlinellu cynllun cymorth a chyfathrebu Cyswllt Ffermio. Darparodd Einir drosolwg o'r gwaith a gynllunnir gan Gyswllt Ffermio, sy'n cynnwys y canlynol:

- **Ffeithlenni:**

- 'Cyngor ac Arweiniad ynghylch y Rheoliadau Llygredd Amaethyddol (copi papur wedi'i anfon at bob ffermwr sydd wedi'i gofrestru â Thaliadau Gwledig Cymru)

- Tair Ffeithlen Gychwynnol:

1. Trosolwg o'r Rheoliadau
2. Golwg fanylach ar y mesurau o 01/04/2021
3. Cyngor ac Arweiniad i staff Rheng Flaen (mae croeso i randdeiliaid rannu'r ffeithlen hon)

(mae rhagor yn cael eu datblygu)

- **Gweminarau:**

- e.e. capasiti storio slyri, llwyth nitrogen, mapiau risg, cadw cofnodion ac ati.

- **Cymorthfeydd:**

- Sesiwn un ag un sy'n awr o hyd (wedi'i chyllido'n llawn)

38. Dywedodd Einir fod y rhaglen sgiliau bresennol yn cynnwys:

- E-ddysgu

- Er enghraifft, Rheoli Maethynnau Fferm, Compostio Tail Buarth, Lleihau Llygredd Amaethyddol, Rheoli Slyri ac ati.

- Cyrsiau Hyfforddi Achrededig

- Cyllid 80%– "Cymhwyso slyri a'i ddefnyddio'n ddiogel"

- Hyfforddiant TGCh

- Cymorth un ag un gan fentor

- Gweithdy TGCh

- Gweithdai offer digidol, megis pecyn 'Slurry Wizzard' AHDB

39. Disgrifiodd Einir y cymorth mwy ymarferol a ddarperir gan Gyswllt Ffermio gan gynnwys:

- Mentora - cymorth gan gymheiriaid
- Rhwydwaith Arddangos – Negeseuon allweddol ac Arferion Gorau
- Gwasanaeth Cynghori:

- Cyllid 80% ar gyfer sesiynau un ag un, cyllid 100% ar gyfer grwpiau. Mae'r testunau trafod yn cynnwys:

  1. Cynlluniau Rheoli Maethynnau
  2. Cynlluniau Rheoli Nitrogen

3. Cynlluniau Rheoli Tail

4. Seilwaith (storio slyri a silwair)

40. Disgrifiodd Einir ddarpariaeth barhaus Cyswllt Ffermio, sy’n cynnwys:

- Datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer staff Cyswllt Ffermio
- Datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer ymgynghorwyr y fframwaith cyflwyno
- Cyhoeddiad Technegol Cyswllt Ffermio

41. Cyfeiriodd Einir at rai elfennau sy’n cael eu trafod, gan gynnwys:

- Gweithdai/Seminarau/Digwyddiadau

- Mae’r canlynol ymhlith y testunau trafod posibl:

1. Mapiau Risg
2. Cynlluniau Maethynnau
3. Adeiladu systemau storio newydd
4. Materion sy’n ymwneud â thenantiaeth

- Cyfrifiannell Nitrogen Ar-lein

42. I gloi, roedd Einir wedi sicrhau’r aelodau nad oedd hwn yn gynllun terfynol ac y byddai Cyswllt Ffermio’n croesawu awgrymiadau a syniadau.

43. Diolchodd y Cadeirydd i Einir am y cyflwyniad a gofynnodd a oedd gan yr aelodau unrhyw gwestiynau, sylwadau neu awgrymiadau.

44. Nododd Bernard Griffiths, FUW, fod y rhestr seminarau yn cynnwys ‘adeiladu systemau storio newydd’ ond argymhellodd y dylid cynnwys ‘helaethu systemau storio presennol’ hefyd gan fod hwnnw’n waith anodd iawn i ffermwyr yn aml, yn hytrach nag adeiladu systemau storio newydd. Dywedodd Einir y bydd Cyswllt Ffermio’n cydweithio â Rhanddeiliaid i ddatblygu’r maes hwn trwy fabwysiadu eu syniadau a’u safbwyntiau.

45. Awgrymodd Ed Davies, CNC, y dylai Cyswllt Ffermio roi gwybod i aelodau’r Is-grŵp pan fydd ffeithlenni ar gael a digwyddiadau wedi’u trefnu er mwyn i bawb allu helpu i gyfeirio ffermwyr at wefan Cyswllt Ffermio i gael yr wybodaeth hon. Byddai hynny’n helpu’r wybodaeth i gyrraedd cynulleidfa ehangach a byddai pobl, gobeithio, yn teimlo’n llai pryderus ac yn gwybod bod cymorth ar gael.

***PG 10 Ebrill: Bod Cyswllt Ffermio yn rhoi manylion y ffeithlenni sydd ar ddod a’r digwyddiadau a drefnwyd i Ed Davies / Bronwen Martin, CNC er mwyn i’r wybodaeth hon gael ei rhannu â’r sefydliadau sy’n aelodau o’r Is-grŵp a’i dosbarthu wedyn i’w haelodau.***

46. Roedd Sarah Hetherington, CNC, yn cytuno y byddai rhannu'r wybodaeth yn gymorth ond dywedodd fod negeseuon cyson hefyd yn bwysig rhag dosbarthu gwybodaeth sy'n gwrthdaro. Gofynnodd Sarah a oedd y grŵp yn meddwl bod yr wybodaeth yn y cyflwyniad yn cwmpasu popeth sy'n angenrheidiol ac awgrymodd efallai y byddai'n ddefnyddiol rhoi ychydig o amser i'r grŵp feddwl am y mater a darparu adborth. Cydnabu Sarah nad oedd tawelwch mewn cyfarfod bob amser yn golygu bod pobl yn cytuno â rhywbeth.

    Roedd y Cadeirydd yn cytuno ac anogodd yr aelodau i fynd ati, gyda phob parch, i herio a chwestiynu'r hyn y mae'r grŵp yn ei rannu, er mwyn cael mwy o eglurder neu ddeall pynciau trafod yn well.

***PG 11 Ebrill: Bod y grŵp yn adolygu'r wybodaeth yng nghynllun cyfathrebu tymor hwy Cyswllt Ffermio ac yn anfon unrhyw adborth neu sylwadau at Einir Williams, Cyswllt Ffermio.***

47. Gofynnodd Sarah Jones, Dŵr Cymru, a allai'r Pecyn Rhanddeiliaid helpu i ledaenu negeseuon cyson. Byddai modd wedyn i'r wybodaeth yn y Pecyn Rhanddeiliaid gael ei defnyddio drosodd a thro heb i'r wybodaeth gael ei chamddeall. Dywedodd Sarah fod cyflwyniad Einir yn wych ond gofynnodd sut y byddai ffermwyr yn gallu cael hyd i'r un wybodaeth eu hunain. Dywedodd Einir y bydd Cyswllt Ffermio yn defnyddio'r un sianeli ag arfer, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol, negeseuon 'Beth sydd mlaen' at gwsmeriaid cofrestredig, a'r gwasanaethau cymorth ar wefan Cyswllt Ffermio.

    O gofio gwir natur y sefyllfa a drafodwyd yn gynharach yn y cyfarfod, awgrymodd Sarah Jones, Dŵr Cymru, efallai bod cyfle i newid cyfeiriad ryw ychydig er mwyn lleddfu'r panig yn y diwydiant a chyrraedd mwy o bobl. Roedd Sarah yn argymell gwario ychydig mwy o'r gyllideb ar hysbysebu mewn mannau gwahanol i'r arfer er mwyn ceisio cyrraedd mwy o bobl. Cydnabu Einir awgrym Sarah a chytunodd y byddai hon yn ffordd bosibl o gyrraedd pobl nad yw Cyswllt Ffermio'n ymgysylltu â nhw o bosibl, e.e. y rhai nad ydynt yn aelodau. Dywedodd Einir fod tua 11,000 o fusnesau wedi ymaelodi â Chyswllt Ffermio, sy'n llai na chyfanswm y busnesau ffermio yng Nghymru. Caniateir i Gyswllt Ffermio gysylltu'n uniongyrchol a'i aelodau cofrestredig yn unig. Gofynnodd Einir i aelodau'r Is-grŵp helpu Cyswllt Ffermio i gyrraedd y ffermwyr hynny nad yw'r sefydliad yn ymgysylltu â nhw hyn o bryd.

    O gofio'r oriau niferus y mae ffermwyr yn eu treulio yn y cab, gofynnodd Bernard Griffiths, FUW, tybed faint o wybodaeth sy'n cael ei rhannu trwy Radio Cymru, Radio Wales, ac ati. Dywedodd Einir Williams, Cyswllt Ffermio, fod Cyswllt Ffermio'n cyhoeddi Hysbysiadau i'r Wasg yng Nghymru yn rheolaidd ond yw'n gallu rheoli'r hyn a argreffir. Dywedodd Einir ei bod hi'n fodlon edrych ar dargedu'r cyfryngau a awgrymwyd gan Bernard.

    Gofynnodd Katy Simmonds, CNC, a fyddai holl hyfforddiant a gweminarau Cyswllt Ffermio ar agor i ffermwyr nad ydynt yn aelodau o Gyswllt Ffermio. Dywedodd Einir y byddai angen i ffermwyr ymgofrestru er mwyn cael mynediad i ddigwyddiadau Cyswllt Ffermio ond nododd fod y broses ymgofrestru yn hawdd iawn ac yn ddi-dâl.

48. Dywedodd y Cadeirydd fod thema gyffredin yn codi yn y cyfarfod hwn, sef bod sefydliadau'n cydweithio i helpu i rannu gwybodaeth. Awgrymodd Zoe y gallai WEL

hefyd helpu i rannu negeseuon gan fod llawer o'i sefydliadau hefyd yn gweithio gyda ffermwyr.

49. Gofynnodd Nichola Salter, CNC, i holl aelodau'r Is-grŵp wirio'r hyn y maent yn ei ddweud a defnyddio'r teitl cywir wrth gyfeirio at y rheoliadau a gwirio diffiniadau'r rheoliadau oherwydd gwelir nad yw llawer o bobl, gan gynnwys ymgynghorwyr a chynghorwyr, yn darllen y canllawiau. Dywedodd Nichola y dylai pawb yn y grŵp ddarllen y canllawiau, edrych ar y dull cyflwyno fesul cam, edrych ar y diffiniadau, edrych ar y diagramau llif yn Atodiad 1 a defnyddio'r termau cywir wrth fynd ati i gyfathrebu.

50. Roedd Sarah Hetherington, CNC, yn cofio dull gweithredu rhagweithiol a ddefnyddiwyd ar gyfer gwaith Dalgylchoedd Blaenoriaeth gyda Menter a Busnes lle roedd Llywodraeth Cymru wedi helpu i anfon llythyrau at bob busnes fferm a oedd wedi ymgofrestru â Llywodraeth Cymru, ar ben y rhai a oedd yn ymgysylltu â Chyswllt Ffermio. Awgrymodd Sarah y gellid mabwysiadu cynllun cerdyn post tebyg ar gyfer y gwaith hwn gan Gyswllt Ffermio. Dywedodd Einir y bydd y ffeithlen gyntaf sy'n cyfeirio ffermwyr at y gwahanol ffynonellau cymorth yn cael ei hanfon at holl gwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru, a fydd yn gymorth mawr o ran cyrraedd cynulleidfa ehangach.

51. Awgrymodd Creighton Harvey, CFF, mai un o'r rhwystrau rhag cyfathrebu yw'r ffaith fod rhai o undebau'r ffermwyr yn dal i ymgyrchu, gydag achosion barnwrol posibl ar fin dechrau. Dywedodd Creighton na ddylai ymgyrchu chwarae unrhyw ran yn y broses honno, gan ei fod yn fater i'r barnwr a fydd yn ystyried yr hyn sy'n cael ei osod ger bron. Ar hyn o bryd, mae negeseuon negyddol yn dal i gael eu rhannu ynghylch y rheoliadau ac mae'r rheiny'n dychryn ffermwyr. Mae angen i bobl sylweddoli nad oes diben ymgyrchu os ydych yn dilyn llwybr adolygiad barnwrol, oherwydd bydd y barnwr yn ystyried y dystiolaeth yn hytrach na'r ymgyrch.

52. Gofynnodd Katy Simmons, CNC, a yw'r wybodaeth yn Ffeithlenni Cyswllt Ffermio yn gallu cael, neu wedi cael, ei hadolygu gan CNC cyn iddi gael ei chyhoeddi. Cadarnhaodd Einir fod Tîm Polisi Llywodraeth Cymru yn adolygu cynnwys y Ffeithlenni i'w gymeradwyo cyn argraffu a chyhoeddi

## Eitem 7 Diweddariad ynghylch prosiectau sydd ar waith

53. Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i'r aelodau rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau sydd eisoes ar waith gan eu sefydliadau ym maes llygredd amaethyddol.

54. Rhoddodd Ed Davies, CNC, grynodeb byr o beth o'r gwaith y mae CNC yn ymwneud ag ef, gan gynnwys:

- Adolygiad o'r Safonau Dŵr
- Prosiect Llwyth Maethynnau
- Mapio risg llygredd gwaddod
- Prosiect LIFE Afon Dyfrdwy

- Ailddechrau cylchredeg Llythyr Newyddion Is-grŵp WLMF

55. Dywedodd Fraser McAuley, CLA, fod CLA wedi llunio Strategaeth Ddŵr ac yn fodlon rhannu'r manylion maes o law.

***PG 12 Ebrill: Bod Fraser McAuley, CLA, yn rhannu manylion Strategaeth Ddŵr CLA.***

Dywedodd Fraser fod CLA wedi cynnal cyfres o weminarau a oedd yn canolbwyntio ar ei haelodau a'i bod yn gobeithio cynnal un ynghylch y rheoliadau ym mis Mai. Dywedodd Fraser iddo siarad â chyd-weithiwr yng nghanolbarth Lloegr sy'n cynnal arolwg ar gyfer pobl yn nalgylch afon Gwy yn Swydd Henffordd ynghylch y gwaith sy'n cael ei wneud yno i liniaru dŵr ffo a llygredd yn Afon Gwy. Gwneir y gwaith hwn ar y cyd â'r NFU er mwyn ceisio atal yr ardal rhag dod yn barth diogelu dŵr yn y dyfodol. Dywedodd Fraser fod y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu a byddai modd iddo roi adborth mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Gofynnodd Nichola Salter, CNC, a yw'r gwaith ar afon Gwy yn Lloegr yn digwydd trwy Farm Herefordshire ynteu trwy undebau'r ffermwyr. Dywedodd Fraser y cafodd y gwaith ei sefydlu i ddechrau gan Farm Herefordshire ond ni chafwyd fawr o arddangosiadau gan yr undebau ynghylch yr hyn yr oedd pobl yn ei wneud, felly mae hon yn ffordd dda o amlygu peth o'r gwaith da sy'n digwydd.

56. Dywedodd Dennis Matheson, TFA, fod y gymdeithas yn gweithio ar atebion i broblemau tenantiaid o ran cydymffurfio â'r rheoliadau newydd a chymryd rhan yng nghynllun y Cymhorthdal Sengl i Ffermydd (SFS) sydd ar ddod. Dywedodd Dennis ei fod wedi cyfarfod Marc Williams a Bob Vaughan, CNC, i drafod y Cynllun Aer Glân. Nododd Dennis ei fod wedi trafod Arglawdd Tan Lan a'r amddiffynfeydd rhag llifogydd yn nyffryn Conwy a'r materion tenantiaeth sydd wedi codi yn yr ardal yn dilyn hynny.

## Eitem 8 Dalgylchoedd Cyswllt Ffermio ar gyfer 2021

57. Esboniodd Ed Davies, CNC, y penderfynwyd ar y rhestr o Ddalgylchoedd Cyswllt Ffermio ar gyfer 2021 a'i hamlinellu yn y Papur Diweddaru a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod. Dewiswyd y dalgylchoedd hyn ar sail y system sgorio a'r adborth a gafwyd. Dywedodd Ed y byddai digwyddiadau rhithwir yn debygol oherwydd COVID ond yr oedd yn gobeithio y byddai cyfle i gynnal digwyddiadau wyneb yn wyneb yn nes ymlaen.

58. Roedd Einir Williams, Cyswllt Ffermio, wedi anfon dau Adroddiad Ymgysylltiad Cyswllt Ffermio cyn y cyfarfod; un ynghylch digwyddiadau 2018 a'r llall ynghylch y pum digwyddiad cyntaf yn 2019 (bydd yr adroddiad ynghylch gweddill y digwyddiadau yn dilyn erbyn cyfarfod nesaf WLMF). Cyflwynodd Einir drosolwg byr o'r adroddiadau ac esboniodd y cynnwys, a oedd yn cwmpasu:

    - Cyfanswm = nifer y busnesau a gofrestrwyd yn y dalgylch a ymgysylltodd nifer penodedig o weithiau

    - Cynghori = nifer y busnesau yn y dalgylch a ddefnyddiodd y gwasanaeth cynghori

- Sgiliau = nifer yr unigolion a gymerodd ran mewn hyfforddiant sgiliau yn y dalgylch
- Digwyddiadau = nifer yr unigolion a gymerodd ran mewn digwyddiadau yn y dalgylch

Esboniodd Einir fod Cyswllt Ffermio'n gwerthuso popeth, gan gynnwys pa mor llwyddiannus oedd y digwyddiad, cyngor neu hyfforddiant sgiliau, a yw'r cyfranogwyr wedi dysgu rhywbeth newydd ac os ydynt, beth oedd hwnnw, a yw'r cyfranogwyr wedi newid eu harferion ffermio ac os na wnaethant, beth sy'n eu rhwystro rhag newid arferion.

Gofynnodd Ed pa mor hawdd oedd dadansoddi'r adborth a'r wybodaeth er mwyn helpu i nodi elfennau cyffredin a deall y rhwystrau rhag newid a'u dileu lle bo hynny'n bosibl. Dywedodd Einir y byddai modd asesu hynny, yn ôl pob tebyg, ond y gost yw'r prif rwystr rhag newid gan amlaf, yn enwedig yn achos Cynlluniau Rheoli Maethynnau.

59. Dywedodd Sarah Hetherington, CNC, fod ymgorffori negeseuon yn allweddol. Mae rhai yn ymgysylltu i gael gwahanol bethau, megis cyngor ynghylch Cynlluniau Rheoli Maethynnau neu gyngor ynghylch Seilwaith. Dywedodd Sarah fod rhai yn chwilio am gyngor ynghylch da byw a gofynnodd tybed a ydynt yn cael y negeseuon y mae'r grŵp hwn am eu hyrwyddo. Esboniodd Sarah y bydd newid dulliau rheoli da byw hefyd yn effeithio ar benderfyniadau eraill, megis cynlluniau rheoli tail; felly a yw Cyswllt Ffermio yn ymgorffori'r negeseuon hyn ynghylch y dyfodol yn ei gyngor. Dywedodd Einir ei bod hi'n hyderus bod y cyngor technegol ynghylch da byw, cynlluniau rheoli tail, cynlluniau rheoli pridd a rheoli maethynnau ac ati yn ymgorffori'r negeseuon allweddol oherwydd mae'n rhaid i ymgynghorwyr ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus er mwyn parhau i fod yn rhan o fframwaith Cyswllt Ffermio.

60. Gofynnodd Chris Mills, WEL, beth oedd y llinell sylfaen a beth yr oedd angen ei newid. Mae'r prosiect hwn, fel petai'n dibynnu ar ddull gweithredu eithaf goddefol ac yn dibynnu ar ffermwyr i ddod ymlaen. Mae'n bur debyg nad yw'r rhai sydd â'r angen mwyaf yn dod ymlaen felly faint yn nes i'r lan fydd y prosiect o ddefnyddio'r dull gweithredu hwn. Cydnabu Einir fod yna ran o'r diwydiant nad yw Cyswllt Ffermio wedi ymgysylltu â hi ond byddai'n ei chroesawu â breichiau agored. Awgrymodd Einir fod hwn yn faes lle mae Cyswllt Ffermio'n dibynnu ar gymorth rhanddeiliaid i'w helpu i gyfathrebu â'r ffermwyr hynny sy'n anodd eu cyrraedd.

    Dywedodd Nichola Salter, CNC, fod CNC yn aml yn cyfeirio ffermwyr anodd eu cyrraedd at wasanaethau Cyswllt Ffermio.

61. Rhannodd Sarah Hetherington, CNC, gefndir peth o'r gwaith blaenorol a wnaed gyda Chyswllt Ffermio lle lluniwyd arolwg gwaelodlin a oedd yn cynnwys cwestiynau gosod ynghylch ymwybyddiaeth o faterion dŵr. Dangosodd yr holiadur fwy o ymgysylltu a mwy o ymwybyddiaeth o'r meysydd pryder y mae'r grŵp hwn yn canolbwyntio arnynt.

62. Dywedodd Bernard Griffiths, FUW, mai defnyddio 'abwyd' yn hytrach na 'chosb' yw'r ffordd orau yn aml o ymgysylltu â ffermwyr. Er enghraifft, yn y gorffennol, bu'n rhaid i ffermwyr ddod i sesiwn min nos er mwyn bod yn gymwys am grant busnes fferm ac o ganlyniad daethant yno'n un haid.

## Eitem 9 Unrhyw fater arall

63. Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r grŵp fod CNC yn chwilio am dri Aelod newydd o'r Bwrdd a gofynnodd i'r aelodau annog ymgeiswyr da i gyflwyno cais. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw diwedd Ebrill 2021.

64. Cyfeiriodd Bernard Griffiths, FUW, at gam gweithredu o gyfarfod blaenorol, sef bod Marc Williams, CNC, a Chris Mills, WEL, yn cyfarfod i drafod ffyrdd amgen o ddadansoddi data ynghylch digwyddiadau. Gofynnodd Bernard a oeddent wedi cyfarfod ac a oedd adborth i'w rannu. Dywedodd Marc Williams, CNC, fod cyfarfod wedi cael ei gynnal ychydig o wythnosau yn ôl gyda Chris Mills, WEL, Ed Davies, CNC, a Caroline Orr, Afonydd Cymru.

***PG 13 Ebrill: Bod Marc Williams, CNC, yn darparu crynodeb o'r cyfarfod ynghylch dulliau amgen posibl o ddadansoddi data ynghylch digwyddiadau.***

65. Cynhelir cyfarfod nesaf yr Is-grŵp ar 17 Mai 2021.

## Diwedd y Cyfarfod